# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**(via MS Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Llun, 21 Chwefror 2022** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd J.D.Morgan** |
| **Cynghorwyr**: | J.Hurley, S.Miller, S.Pursey, A.J.Richards, S.Renkes a/ac S.Lynch |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, S.Curran a/ac A.Thomas |

---

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.

## 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2020/2021 A 2021/2022

Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnwys y cyfnod rhwng mis Mai 2020 a mis Chwefror 2022.

Cyfeiriodd y cadeirydd at yr adroddiad eglurhaol ac amlinellodd nad oedd yn adroddiad y Cadeirydd, ond adroddiad Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd cyfan.

Mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn nodi ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2020/21 a 2021/22 a atodir yn Atodiad 1 gan ei gymeradwyo i'r cyngor i'w gadarnhau.

## 4. **SEFYDLU AELODAU 2022**

Amlinellodd swyddogion yr amserlen wedi'i diweddaru i sicrhau bod y pwyllgor yn ymwybodol o'r rhaglen. Mae'r amserlen yn un uchelgeisiol a fydd yn canolbwyntio'n gyntaf ar y sgiliau allweddol y bydd eu hangen ar aelodau yn dilyn yr etholiad, ac yna bydd yn adeiladu ar y sgiliau hyn drwy gydol y flwyddyn.

Amlinellodd swyddogion mai'r bwriad oedd cynnal yr holl hyfforddiant trwy fodel hybrid. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd o ran lleoliad er mwyn i bobl fod yn bresennol yn y cyfarfod. Rhoddir ystyriaeth hefyd i recordio'r hyfforddiant ac yna bydd ar gael yn *Members Hub*. Mae'r awdurdod hefyd yn gweithio gyda CLlLC, sy'n dylunio adnoddau y bydd aelodau'n gallu eu defnyddio fel hyfforddiant parhaus. Bydd y rhain yn cynnwys meysydd megis craffu, diogelu data etc.

Soniodd yr aelodau am Restr Safleoedd Ymgeisiol y Cynllun Datblygu Lleol a oedd ar ddod, a chaiff ei hystyried yn fuan wedi'r etholiad. Dymunodd aelodau sicrhau bod aelodau'n derbyn cyfle cynnar ar gyfer hyfforddiant i sicrhau y gellir ystyried yr eitem hon yn briodol gan aelodau.

Cododd yr aelodau bryderon am fynediad i Siambr y Cyngor o ran unrhyw anableddau ac a oes gan y siambr yr hyn y mae ei angen ar gyfer yr holl aelodau. Dywedodd swyddogion, fel rhan o'r Rhaglen Sefydlu, cynhelir arolwg hygyrchedd i sicrhau y tynnir sylw ar unrhyw eitemau perthnasol a gellir rhoi darpariaeth ar waith i ymateb i'r rhain. Gofynnodd aelodau i ni archwilio system gyfeillio ar gyfer aelodau newydd yn dilyn yr etholiad. Dywedodd swyddogion fod hyn yn cael ei hystyried ar hyn o bryd ac yn ogystal â hyn roedd yn cael ei harchwilio o safbwynt swyddog. Mae'r ddarpariaeth i gael Swyddog Gwasanaethau Democrataidd penodol ar waith fel pwynt cyswllt cyntaf i aelodau ag unrhyw ymholiadau'n cael ei hystyried.

Nododd Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Sefydlu Aelodau a'r Amserlen ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

## 5. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**